2014 - 2024 10

Gwasanaeth **Mabwysiadu** Cenedlaethol | National **Adoption** Service

# Adroddiad Blynyddol

# 2024/25

## Dathlu 10 Mlynedd o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol

Adroddiad cryno ar gyfer POB oed



# Helô! gan ein cyfarwyddwr

Mae'n **10 mlynedd** ers i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (**GMC**) ddechrau helpu plant a phobl ifanc yng Nghymru i ddod o hyd i deuluoedd a gwella gwasanaethau mabwysiadu, ac rydym mor falch o'r hyn sydd wedi'i gyflawni.

Eleni, rydyn ni wedi gweithio'n galed eto i:

- Helpu mwy o blant i symud i gartrefi diogel a chariadus
- Ei gwneud yn haws i bobl sydd wedi cael eu mabwysiadu, ddeall eu gorffennol
- Cefnogi teuluoedd yn well, yn gynharach, ac am gyfnod hirach
- Parhau i wella'r ffordd y mae mabwysiadu yn gweithio ledled Cymru

Mae yna gyfnodau anodd wedi bod hefyd, fel costau byw yn codi a mwy o alw am gymorth, ond rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wneud yr hyn sy'n iawn i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.





# Felly... beth yw GMC





## Mae GMC yn sefydliad sy'n dod â'r holl wasanaethau at ei gilydd i wella mabwysiadu yng Nghymru.

Rydyn ni'n dod â'r canlynol at ei gilydd:

- Y 22 awdurdod lleol yng Nghymru (pobl sy'n gyfrifol am bethau fel tai, gwasanaethau cymdeithasol, ffyrdd, a hyd yn oed casglu gwastraff)
- Elusennau mabwysiadu
- Gweithwyr proffesiynol yn y maes iechyd ac addysg.

Gyda'n gilydd, rydyn ni'n:

- Dod o hyd i deuluoedd i blant sydd eu hangen
- Cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu mabwysiadu, a'u teuluoedd
- Helpu rhieni geni i gadw mewn cysylltiad, os yw'n iawn i wneud hynny
- Gwneud yn siŵr bod oedolion a gafodd eu mabwysiadu yn gallu cael eu gwybodaeth pan fyddant yn barod.



# Ein taith: sut mae GMC wedi newid mabwysiadu yng Nghymru er 2014



## Dod o hyd i gartrefi

- Mae mwy na **3,100 o blant** wedi cael eu mabwysiadu gan **2,500 o deuluoedd gofalgar**.
- Mae tua **4,200 o blant** dan 18 yn byw gyda theuluoedd sy’n mabwysiadu yng Nghymru, ac mae **7,500 o oedolion sydd wedi cael eu mabwysiadu** yn byw yma hefyd.
- Mae tua **310** o blant yn gadael gofal drwy gael eu mabwysiadu bob blwyddyn.

## Cefnogaeth a chysylltiadau

- Bob blwyddyn, rydym yn cefnogi tua **1,000 o blant** gyda’u cynlluniau mabwysiadu.
- Rydym wedi helpu mwy na **4,000 o blant** i gadw mewn cysylltiad â’u teulu biolegol, trwy lythyrau neu ymweliadau wyneb yn wyneb.
- Rydym yn gweithio tuag at gael yr un safonau cymorth ledled Cymru, diolch i’n **Fframwaith Cymorth Mabwysiadu**.

## Lledaenu’r gair a siapio newid

- Mae ymgyrchoedd llwyddiannus fel Gweld y Plentyn Cyfan, Bod yn Rhiant…, a Dewis Teulu yn helpu pobl i ddeall mabwysiadu.
- Rydym yn sicrhau bod llais gan bobl sy’n mabwysiadu a phobl ifanc, trwy **Llais Mabwysiadwyr**, **Lleisiau CONNECT**, a’r **Sgwrs Fawr ar Fabwysiadu**.
- Mae offer digidol fel **Cofrestr Mabwysiadu Cymru** a’n gwefan, yn helpu i arbed amser ac ymdrech i bawb dan sylw.

## Cydweithio

- Rydym yn hyfforddi mabwysiadwyr, gweithwyr cymdeithasol, athrawon, a gweithwyr iechyd. Rydyn ni'n dysgu pethau fel **Gwaith Taith Bywyd** a **rhianta therapiwtig**.
- Fe wnaethom ymuno â **Dim Hiliaeth Cymru** i sicrhau bod mabwysiadu yn deg i bawb.
- Yn ystod COVID-19, fe wnaethom ddefnyddio galwadau fideo, therapi ar-lein, a hyfforddiant digidol, fel bod teuluoedd yn parhau i gael eu cefnogi.
- Mae **Sefydlogrwydd Cynnar Cymru (WEP)** yn golygu y gall plant ifanc fyw yn gynharach gyda'r teulu sydd wedi eu mabwysiadu, gan roi dechrau mwy sefydlog iddynt.

## Uchafbwyntiau'r cynnydd

- Rydym yn paru mwy yn gynt; mae mwy o frodyr a chwiorydd yn aros gyda'i gilydd, mwy o blant yn cael lleoliad yng Nghymru, a mwy o amrywiaeth mewn teuluoedd.
- Mae mwy yn cael eu cymeradwyo yn gynt, gyda mwy o fabwysiadwyr yn gorffen y broses mewn llai na chwe mis.
- Mae'r Ymrwymiad Cymorth Mabwysiadu yn addo cymorth parhaus i deuluoedd, yn cynnwys therapi a chysylltiad â'r teulu geni.



# Yr hyn a wnaethom yn 24/25

## Dod o hyd i deuluoedd


- Cafodd mwy na 200 o blant eu lleoli mewn teuluoedd sy'n mabwysiadu.
- Cafodd mwy o blant eu paru â theuluoedd sy'n mabwysiadu drwy **Gofrestr Mabwysiadu Cymru**.
- Cafodd dwsinau o blant ifanc le yn gynnar diolch i **Sefydlogrwydd Cynnar Cymru**.
- Fe wnaeth ein hymgyrchoedd ddefnyddio **TikTok, Spotify** ac **Instagram** i chwalu'r mythau ac annog mwy o bobl i fabwysiadu.

**Stori fach:** Nid oedd un pâr yn meddwl eu bod yn "fath cywir" o rieni, ond gyda chefnogaeth, cawsant eu paru â phlentyn sydd bellach â chartref sefydlog, cariadus.

## Cefnogaeth sy'n gwneud gwahaniaeth

Mae cael eich mabwysiadu yn daith gydol oes, ac rydyn ni eisiau i deuluoedd deimlo eu bod yn cael eu cefnogi bob cam o'r ffordd. Eleni:

- Roedd cymorth ar gael i **1,600 o blant**.
- Fe wnaeth gwasanaeth **PATHway** helpu dros **300 o deuluoedd** drwy roi cyngor, therapi a chymorth cymheiriaid.
- Roedd tua 390 o blant a phobl ifanc yn rhan o wasanaeth **Connect**.
- Fe wnaeth pecyn cymorth **Gwaith Taith Bywyd** helpu mwy o blant i ddeall eu stori. Nawr, mae **65%** o blant yn derbyn y deunyddiau hyn erbyn eu hail adolygiad mabwysiadu.




## Cadw mewn cysylltiad â theuluoedd geni




Gall rhai plant aros mewn cysylltiad â'u teulu geni, ac rydym yn helpu i hynny ddigwydd mewn ffyrdd diogel sy'n cael eu cynllunio. Yn 2024/25:

- Fe wnaeth mwy na **4,000 o blant** gael cyswllt **blwch llythyrau** (anuniongyrchol).
- Mae mwy o deuluoedd yn cwrdd wyneb yn wyneb nawr, pan mae'n iawn i'r plentyn.
- Cafodd staff hyfforddiant ychwanegol fel eu bod yn gallu helpu i greu cynlluniau cyswllt sy'n sensitif ac yn iawn i'r plentyn/person ifanc.




**Enghraifft go iawn:** Cafodd plentyn/person ifanc sgyrsiau fideo gyda'i rhiant geni cyn cyfarfod wyneb yn wyneb. Gweithiodd pawb gyda'i gilydd i wneud iddo deimlo'n ddiogel ac yn bositif, gan wneud yn siŵr mai'r plentyn/person ifanc oedd yr un a ddewisodd y cyswllt yr oedd ei eisiau.



## Deall y gorffennol

Rydym yn credu y dylai fod cyfle i bawb wybod o ble maen nhw'n dod, os ydynt yn barod a phan maen nhw'n barod. Eleni:

- Fe wnaethom barhau â **gwasanaeth peilot** i helpu pobl a gafodd eu mabwysiadu cyn 1976 i weld eu cofnodion.
- Rydyn ni wedi gwneud cynlluniau newydd i wella'r ffordd y mae cofnodion yn cael eu storio a'u rhannu.
- Rydyn ni wedi gweld mwy o bobl yn defnyddio profion **DNA a chyfryngau cymdeithasol** i gysylltu, felly rydyn ni'n cynnig mwy o gefnogaeth.




## Y tu ôl i'r llenni

Rhan fawr o'n gwaith yw helpu gwasanaethau i redeg yn deg ac yn gyson yng Nghymru. Eleni:

- Fe wnaeth **Cydbwyllgor** gyfarfod am y tro cyntaf i helpu i wneud penderfyniadau.
- Cafwyd adolygiad llawn o'r **cyllid sydd ei angen** i redeg y gwasanaeth fel y gallwn gynllunio'n well yn y dyfodol.
- Fe wnaethom ymuno â **Gŵyl y Gelli** a'r **Eisteddfod**, trefnu gweithgareddau i deuluoedd, a chynnal digwyddiadau mawr fel **Y Sgwrs Fawr ar Fabwysiadu** lle cafodd pobl gyfle i ddod at ei gilydd i drafod y pethau sy'n bwysig iddyn nhw.

# Fe ddywedodd plant, pobl ifanc a theuluoedd wrthym

“Mae cael fy mabwysiadu wedi fy ngwneud i’n gryf a chefais blentyndod anhygoel”

“Fe wnaeth y sesiynau paratoi helpu llawer. Roedd y botel o gariad yn golygu cymaint iddo.”

“Diolch i bawb a wnaeth fy helpu pan gefais fy symud i fy nheulu newydd.”



# Y niferoedd y tu ôl i stori 2024-25 yn GMC

Cafodd
**65%**
o blant eu deunyddiau Taith Bywyd yn gynnar

Cafodd
**310**
o blant eu mabwysiadu

Fe wnaeth
**1,600+**
o blant dderbyn gwasanaethau cymorth

Ymunodd
**389**
o bobl ifanc â grwpiau Connect

Roedd
**4,000+**
o gynlluniau cyswllt blwch llythyrau



# Beth nesaf?

## Yn ystod y flwyddyn nesaf rydyn ni eisiau:

- Paru mwy o blant gyda theuluoedd sy'n deall eu hanghenion.
- Ei gwneud yn haws i oedolion sydd wedi cael eu mabwysiadu, i ddod o hyd i wybodaeth am eu hanes mabwysiadu.
- Parhau i wella'r gefnogaeth i rieni geni.
- Gwrando'n fwy manwl ar blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu mabwysiadu.

Rydyn ni hefyd yn gweithio ar strategaeth newydd sbon i arwain ein gwaith tan 2026, ac mae eich syniadau yn helpu i'w siapio!

# ...ac yn olaf



## Gair gan ein Cyfarwyddwr

Rydyn ni wedi dod yn bell mewn 10 mlynedd, ac rydyn ni'n falch o'r cynnydd, ond rydyn ni'n gwybod bod mwy i'w wneud.

Byddwn yn parhau i wrando ar yr hyn sydd ei angen arnoch, a byddwn yn parhau i weithio gyda theuluoedd, gweithwyr proffesiynol, a Llywodraeth Cymru i wneud yn siŵr bod mabwysiadu yng Nghymru, y gorau y gall fod.

## Eisiau gwybod mwy?

Edrychwch ar wefan GMC: **www.adoptcymru.com**

# Rhestr termau

**Lleisiau Mabwysiadwyr**
Ffordd i rieni sy'n mabwysiadu yng Nghymru rannu'r hyn maen nhw'n ei feddwl, a helpu i wella gwasanaethau mabwysiadu. Mae'n cael ei reoli gan Adoption UK a GMC, sy'n cynnal fforymau a gweithdai am ddim, i drafod pynciau pwysig fel cefnogaeth ar ôl cael lleoliad, cyswllt, addysg, a Gwaith Taith Bywyd. Mae rhwydweithiau fel hyn yn helpu GMC i glywed gan deuluoedd eu hunain a gwneud newidiadau yn ôl yr hyn y mae mabwysiadwyr yn ei ddweud.

**Cofrestr Mabwysiadu Cymru**
System ddiogel ar-lein sy'n helpu i baru plant sydd angen teuluoedd sy'n mabwysiadu ac wedi eu cymeradwyo ledled Cymru. Mae'n debyg i offeryn paru preifat sy'n cael ei ddefnyddio gan weithwyr proffesiynol.

**Ymrwymiad Cymorth Mabwysiadu**
Dyma addewid gan GMC i helpu teuluoedd sy'n mabwysiadu, bob cam o'r ffordd. Bydd prif berson cyswllt gan deuluoedd sy'n mabwysiadu, byddant yn cael cymorth arbenigol ar gyfer eu plentyn, a byddant yn cael eu harwain i bethau fel llyfrau stori bywyd, therapi, cymorth yn yr ysgol, a chyswllt â'u teulu geni.

**Y Sgwrs Fawr ar Fabwysiadu**
Digwyddiad blynyddol pan fydd pobl sydd wedi cael eu mabwysiadu, teuluoedd geni, mabwysiadwyr a gweithwyr proffesiynol yn cwrdd (wyneb yn wyneb ac ar-lein) i rannu profiadau a syniadau ar sut i wella mabwysiadu yng Nghymru.

**Lleisiau Connect**
Cyngor ieuenctid i blant a phobl ifanc yng Nghymru sydd wedi cael eu mabwysiadu (sy'n cael ei redeg gan Adoption UK a GMC). Mae pobl rhwng tua 10 a 23 oed yn cwrdd, yn rhannu syniadau, ac yn helpu i siapio gwasanaethau mabwysiadu, fel penderfynu pa ddigwyddiadau sydd eu hangen, pa adnoddau sydd angen eu creu, a sut mae GMC yn trafod mabwysiadu ar-lein.

**Canllaw Arfer Da**
Cyfarwyddiadau hawdd eu dilyn y mae GMC yn eu hysgrifennu ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill fel bod pawb yng Nghymru yn gweithio yn yr un ffordd, o ansawdd uchel (er enghraifft, canllaw ar sut i drefnu cyswllt diogel neu ysgrifennu llyfrau Taith Bywyd).

**Gŵyl y Gelli**
Gŵyl lyfrau a syniadau byd-enwog sy'n cael ei chynnal bob mis Mai yn y Gelli Gandryll. Fe wnaeth GMC gynnal gweithgareddau i deuluoedd yno eleni i godi ymwybyddiaeth am fabwysiadu, a sgwrsio gydag ymwelwyr.

**Y Cyd-bwyllgor**
Grŵp o gynghorwyr o bob rhan o Gymru sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i oruchwylio gwaith GMC a Maethu Cymru, cytuno ar gyllidebau, a chadw llygad ar gynnydd. Maen nhw fel "bwrdd llywodraethwyr" ar gyfer mabwysiadu a maethu.

### Cyswllt Blwch Llythyrau
Ffordd i blant sydd wedi cael eu mabwysiadu (neu'r teulu sy'n eu mabwysiadu) a'u teulu geni, gadw mewn cysylltiad trwy gyfnewid llythyrau, e-byst, neu gardiau trwy wasanaeth diogel, fel postio nodiadau mewn blwch llythyrau arbennig, preifat.

### Gwaith Taith Bywyd
Y llyfrau, y lluniau a'r gweithgareddau sy'n helpu plentyn sy'n cael ei fabwysiadu, i ddeall ei stori ei hun – ble y cafodd ei eni, pwy sydd yn ei deulu, a pham y cafodd ei fabwysiadu.

### PATHway
Gwasanaeth Cymru gyfan (gan Adoption UK) sy'n rhoi cyngor arbenigol i rieni sy'n mabwysiadu, grwpiau cymorth gan gymheiriaid, a mynediad at weithwyr proffesiynol fel seicolegwyr fel y gallant ddeall anghenion eu plentyn yn well ac ymateb iddynt.

### Gwasanaeth peilot
Yr enw ar gyfer gwasanaeth newydd sy'n cael ei dreialu i weld pa mor dda mae'n gweithio cyn iddo fod ar gael ym mhobman, er enghraifft, helpu pobl a gafodd eu mabwysiadu cyn 1976 i ddod o hyd i'w cofnodion.

### Strategaeth
Cynllun tymor hir sy'n llywio sut mae GMC yn gweithio a'r pethau y mae'n canolbwyntio arnynt, fel helpu mwy o blant i ddod o hyd i deuluoedd, gwella cefnogaeth, a gwrando ar leisiau pobl ifanc.

### Cynllun Cymorth
Cytundeb ysgrifenedig sy'n rhestru'r help y bydd plentyn sy'n cael ei fabwysiadu, a'i deulu, yn ei gael, fel sesiynau therapi, cyngor ysgol, neu offer, a phwy fydd yn rhoi'r gefnogaeth.

### Rhianta Therapiwtig
Ffordd dosturiol a strwythuredig o fagu plant, sy'n helpu plant sydd wedi wynebu trawma neu galedi cynnar i deimlo'n ddiogel a chael eu deall. Mae'n seiliedig ar arferion, empathi, a chysylltiad emosiynol, yn hytrach na chosb. Mae rhieni yn defnyddio dull PACE —sef Natur Chwareus, Derbyn, Chwilfrydig ac Empathi— i ddeall teimladau a chefnogi twf Oklahoma Fosters+2Adoption West+2TACT+2.

### Sefydlogrwydd Cynnar Cymru (WEP)
Ffordd i blant ifanc iawn fyw gyda'u darpar fabwysiadwyr yn gynharach, cyn i'r llysoedd orffen y broses, fel bod ganddynt lai o symudiadau, a gofal mwy sefydlog o'r dechrau.

### Dim Hiliaeth Cymru
Addewid y mae llawer o bobl a sefydliadau yng Nghymru wedi'i lofnodi. Mae'n golygu dweud na wrth hiliaeth ac addo i drin pawb yn deg, waeth beth yw eu hil neu eu cefndir. Maen nhw eisiau i Gymru fod yn lle nad yw rhagfarn yn cael ei anwybyddu.

2014 - 2024

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service



**Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol**
**Tîm Canolog**
c/o Cyngor Dinas Caerdydd
Ystafell 475 Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd CF10 4UW
F: 029 2087 3927
E: contact@adoptcymru.com
**www.adoptcymru.com**

@nas_cymru

@nationaladoptionservice